



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Llanfarian

**Llanfarian
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 4DA**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Llanfarian

Enw'r darparwr	Ysgol Llanfarian
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ceredigion
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	38
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	32
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	12.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	21.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	21.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	03/09/2012
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	01/06/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	22/01/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://www.gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Un o rinweddau nodedig Ysgol Llanfarian yw ei bod yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n meithrin lles a hybu dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn ddoeth ac yn hyrwyddo diwylliant o gydweithio rhwng staff yn effeithiol. Caiff yr ysgol ei chefnogi'n fwriadus gan y corff llywodraethol sy'n gweithredu prosesau gwerthuso gyda'r pennaeth yn dda i lywio'r addysgu a'r dysgu. Mae'r pennaeth yn cydweithio a chyfathrebu'n gyson â rhieni'n gyson sy'n hyrwyddo'r ysgol yn llwyddiannus yn ei chymuned leol.

Mae staff yn adnabod anghenion lles a dysgu pob disgybl yn effeithiol. Mae ganddynt berthynas waith gefnogol â disgyblion sy'n cyfrannu'n dda at feithrin eu lles a'u hybu i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau perthnasol sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau, yn enwedig eu medrau iaith a digidol. Mae'r 'Clwb Darllen' cyn ysgol yn hyrwyddo brwdfrydedd disgyblion mewn darllen yn dda. Mae darpariaeth briodol er mwyn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd drwy brofiadau addas. Mae athrawon yn cyfoethogi'r ddarpariaeth trwy drefnu gweithgareddau diddorol sy'n helpu disgyblion i gryfhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am wahanol themâu. Ar brydiau, mae staff yn darparu cyfarwyddiadau strwythuredig i ddisgyblion sy'n eu cyfyngu i wneud dewisiadau annibynnol ar sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae disgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn hapus wrth chwarae gyda'u cyfoedion. Maent yn gwrando'n oddefgar ac yn cyfranogi yn eu dysgu yn dda. Mae llawer yn gwneud cynnydd yn eu medrau ac yn dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am yr ardal leol, Cymru a'r byd yn wybodus. Nodwedd gref o'r ysgol yw agweddau a chwarteisi'r disgyblion at ei gilydd ac oedolion.

Argymhellion

- A1 Darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn amrywiol feysydd a chyd-destunau diddorol
- A2 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut y maent yn dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu, rhif, a phersonol a chymdeithasol isel. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion mewn grwpiau penodol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n oddefgar ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd ac oedolion. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith, er enghraifft wrth esbonio sut i adeiladu cwrs rhwystr yn yr ardal tu allan. Mae'r disgyblion hynaf yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith, ac yn defnyddio geirfa berthnasol a phatrymau iaith yn gynyddol gywir wrth gyfrannu'n bwrsol mewn trafodaethau. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, mae llawer yn defnyddio geirfa aeddfed wrth drafod meysydd diddorol, er enghraifft pa fwydydd sy'n pydru a biodiraddio.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod effeithiol o ddulliau darllen er mwyn adeiladu geiriau a gwneud ystyr o'r testun. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen gyda mynegiant a rhuglder cynyddol, er enghraifft wrth ddarllen gwybodaeth am Fwdhaeth. Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw brwdfrydedd disgyblion wrth drafod testunau'n aeddfed, gan gynnwys testunau sydd wedi eu hysgrifennu gan awduron o Gymru, mewn sesiynau darllen ac yn y 'Clwb Darllen' cyn ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n effeithiol ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn defnyddio ansoddeiriau'n greadigol, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu stori am Y Tri Mochyn Bach. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau yn y ddwy iaith ac yn adnabod eu nodweddion yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio personoli a chymariaethau ymestynnol i gyfoethogi eu delweddau am y gaeaf yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gafael gadarn ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i'r llywodraeth am eu pryderon am gynhesu byd eang. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus ac yn dangos parch a balchder at eu cyflawniadau.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gyson. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth ddatrys problemau mathemateg, er enghraifft wrth amcangyfrif maint gwrthrychau gwahanol gan adnabod y gwahaniaeth rhwng dulliau mesur safonol ac ansafonol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae ganddynt afael ddeallus ar ffeithiau rhif, trin arian ac adnabod priodweddau siapiau 2D yn gywir. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf wybodaeth gadarn am rif, er enghraifft wrth drafod rhifau cysefin a lluosï a rhannu degolion hyd at 1000. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n gyson ar eu dysgu blaenorol gan ddwysáu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn dda. Yn gyffredinol, wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn dechrau cymhwyso eu medrau rhif mewn meysydd perthnasol, er enghraifft wrth gyfrifo elw a cholled wrth gynhyrchu a gwerthu jam mefus yn y ffair

haf. Er hyn, nid yw disgyblion yn cymhwyso a datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn ystod gyfoethog o weithgareddau diddorol yn y dosbarth a'r amgylchedd dysgu ehangach.

Ar draws yr ysgol, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teclynnau yn hyderus ac effeithiol i gyfoethogi eu dysgu. Maent yn defnyddio apiau gwahanol i gyflwyno eu gwaith mewn dull amlgyfrwng, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am ddiogelwch ar y traeth. Mae'r disgyblion hynaf yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, sy'n cynnwys casglu a dehongli gwybodaeth i greu bas data am nodweddion adar, er enghraifft. Maent yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg a digidol yn hynod fedrus wrth gyflwyno clip digidol tra'n cyflwyno cyfarwyddiau ar sut i greu pypedau hosanau yn greadigol, er enghraifft.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cydweithio'n ddiwyd i ddatrys problemau tra'n ymchwilio ac arbrofi wrth adeiladu pontydd. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau celf yn dda, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf arbrofi gyda dyfrlliwiau wrth efelychu artistiaid enwog.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hapus o fewn amgylchedd cynhwysol a chynhaliol ac yn dangos balchder i fod yn aelod o'r gymuned glòs. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i fynegi eu teimladau ac i'w rhannu gydag oedolion o fewn yr ysgol, gan wybod bod cefnogaeth dda ar gael iddynt yn barhaus. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, mae disgyblion yn dwysáu eu dealltwriaeth o ddiogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd, er enghraifft wrth i'r frigâd dân ac achub ymweld â'r ysgol. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r maes digidol a sut i gadw'n ddiogel wrth ddysgu ar-lein, er enghraifft i beidio â rhannu cyfeiriadau e-bost a chyfrineiriau gyda dieithriaid.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais gan ddangos parch a gofal at ei gilydd, at oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gwrando ar gyflwyniadau yn aeddfed, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn ymroi i gyflawni eu tasgau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad cyson yn eu gweithgareddau, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf ddysgu am nodweddion cerddoriaeth tra'n canu offeryn i gyfeiliant Sosban Fach. Maent yn llunio ac yn ymateb yn gadarnhaol i reolau'r ysgol ac yn cymryd perchnogaeth dda ohonynt fel rhan o drefniadau rheoli ymddygiad yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu hagweddau cadarn at ddysgu ac yn meithrin amgylchedd cefnogol.

Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw'r modd mae bron bob disgybl yn cyd-ddysgu a chydweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd. Maent yn dangos empathi at gyfraniadau eraill, er enghraifft wrth gynnal sesiwn cyd-fyfyrio ar y thema 'caru' fel rhan o ddathliadau Dydd Santes Dwynwen. At ei gilydd, maent yn amlygu gwydnwch addas yn eu parodrwydd i roi cynnig ar dasgau newydd a mwy heriol, er enghraifft wrth gydweithio a datrys problemau'n effeithiol tra'n dylunio tŷ Celtaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithredu ar ddulliau effeithiol wrth gyflawni gweithgareddau a gwella eu gwaith, Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cefnogi a herio ei gilydd yn dda wrth ddatrys heriau perthnasol yn y dosbarth tu allan. Mae'r disgyblion hynaf yn ystyried p'un ai 'pen, papur, peiriant' sydd fwyaf addas i'w defnyddio wrth ymateb i dasgau sy'n gynyddol heriol. Er hyn, ar brydiau, mae disgyblion yn or-ddibynnol ar arweiniad staff wrth gyflawni gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a chadw'n heini. Maent yn datblygu amrywiaeth dda o fedrau corfforol fel rhan o ddarpariaeth iechyd a lles yr ysgol, fel medrau pêl-droed aawns. Yn ogystal, maent yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau corfforol sy'n cael eu darparu gan ymwelwyr a phartneriaethau, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn sesiynau amrywiol sy'n cefnogi eu hiechyd a lles. Mae disgyblion yn cymryd rhan a chystadlu mewn amrywiaeth briodol o gystadlaethau lleol, er enghraifft gala nofio a thraws gwlad.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu lles emosiynol ac yn cael cyfle dyddiol i'w cofnodi fel rhan o'r ddarpariaeth. Maent yn elwa o'r gweithgareddau garddio achlysurol ac yn mwynhau plannu a chynaeafu gwahanol ffrwythau a llysiau er mwyn gwneud elw mewn ffeiriau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu eu medrau entrepreneuriaid. Er enghraifft, mae disgyblion yn arddangos medrau creadigol ac addysg ariannol effeithiol wrth ddatblygu syniad am fusnes mewn gweithgaredd 'Her £5', gyda hyn yn esgor ar wobwr genedlaethol i'r ysgol.

Mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd perthnasol fel rhan o'r ddarpariaeth dosbarth i ddatblygu eu medrau arwain. Yn ogystal, maent yn cael cyfrifoldebau addas trwy weithgareddau'r cyngor ysgol a'r llysgenhadon, sy'n ymgymryd â gwahanol agweddau fel datblygu lles a medrau digidol eu cyfoedion. Mae disgyblion yn dewis elusennau gwahanol er mwyn cyfrannu bwyd neu arian, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn taith gerdded noddedig yn yr ardal leol i gasglu cyfanswm anrhydeddus i drigolion Syria. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a gofalgwr sy'n awyddus i fod yn aelodau gweithredol a goddefgar o'u cymuned leol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn casglu a gweithredu ar sylwadau a barn y disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn effeithiol wrth gynllunio'r cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod y weledigaeth o ran y cwricwlwm wedi ei seilio ar ddatblygu lles a diddordebau disgyblion yn eu dysgu. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau sy'n darparu ystod berthnasol o brofiadau dysgu i ddisgyblion. Caiff awgrymiadau'r disgyblion eu cynnwys yn llwyddiannus gan athrawon o fewn themâu penodol i ennyn a chynnal eu diddordebau. Mae hyn yn cefnogi'r disgyblion i fwynhau a gwneud cynnydd yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae gan staff berthynas waith gynhyrchiol â phob disgybl ac maent yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n cefnogi disgyblion i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Maent yn nodi amcanion clir wrth gynllunio gweithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau wrth

ddysgu am nodweddion ardal Aberystwyth, ac yn cymharu Cymru â gwledydd eraill y byd yn dda. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol gan ehangu geirfa a phatrymau'n llwyddiannus, wrth drafod cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal leol a thu hwnt, er enghraifft. Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r modd mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n datblygu medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion ar y cyd mewn gweithgareddau bwriadus. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol hefyd fel rhan o'r gweithgareddau hyn. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn ymchwilio ar y rhyngwrdd ac yn coladu gwybodaeth yn llwyddiannus fel paratoad i ysgrifennu llythyr digidol am gynhesu byd eang. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau strwythuredig. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn amrywiol feysydd a chyd-destunau diddorol.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy groesawu ymwelwyr a threfnu ymweliadau i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, mae athrawon yn trefnu i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithdai gwahanol i ddatblygu eu gwybodaeth am Ffrainc a'u medrau i gyfathrebu yn Ffrangeg fel rhan o'r thema 'Bonjour'. Yn ogystal, mae staff yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion am fedrau bywyd yn effeithiol, fel sesiynau cymorth cyntaf, a chyfathrebu trwy ddysgu iaith arwyddion. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion gofalgar ac egwyddorol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r berthynas weithiol ac adnabyddiaeth staff o bob disgybl unigol. Maent yn darparu amgylchedd dysgu sy'n cymhell disgyblion i fwynhau eu dysgu ac i wneud cynnydd cyson. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn eu hannog yn gyson i gyflawni'n dda. Maent yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi medrau Cymraeg disgyblion ac yn eu cymhell i wella eu medrau llafar. Mae athrawon yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn darparu arweiniad pwrpasol i ddisgyblion gyflawni eu tasgau. Maent yn cefnogi'r dysgu'n gyson ac yn eu hannog i lwyddo. Er hyn, ar brydiau, mae staff yn darparu gormod o gyfarwyddiadau i ddisgyblion sy'n cyfyngu eu gallu i wneud dewisiadau annibynnol ar sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fwynhau ac ymgysylltu â'u dysgu mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Mae disgyblion yn cynnal sesiynau gemau buarth sy'n annog eu cyfoedion i siarad Cymraeg a 'Chlwb Darllen' i'w cyfoedion yn ystod amseroedd egwyl. Yn ogystal, mae staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'r clybiau achlysurol ar ôl amser ysgol, fel disgo Santes Dwynwen. Mae'r cyfleoedd hyn yn annog disgyblion i ddatblygu eu gwerthfawrogiad o wahanol brofiadau ac yn eu cymhell i werthfawrogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion drafod a gwella eu gwaith fel rhan annatod o'r dysgu. Maent yn holi disgyblion yn fedrus i ymestyn eu dysgu, a'u cefnogi i werthuso eu cyflawniadau tra'n ystyried y camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i'w cefnogi i wneud cynnydd. Maent yn rhannu gwybodaeth berthnasol am les a chynnydd gyda'r rhieni mewn adroddiadau priodol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Trwy berthynas ragweithiol â'r Cylch Meithrin, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dod yn aelodau cyflawn o gymuned yr ysgol. Mae'r ymdeimlad o berthyn i'r ysgol yn greiddiol i'r ethos cynhwysol ble mae disgyblion yn hapus ac yn meithrin gwerthoedd pwysig. Er enghraifft, mae disgyblion yn dylunio a chreu murlun deniadol wrth fynediad yr ysgol ar y thema 'rydym yn garedig'. Mae'r ethos gofalgwr sy'n cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan y pennaeth a'r staff adnabyddiaeth a dealltwriaeth drylwyr o anghenion bob disgybl unigol. Trwy hyn, maent yn cynllunio darpariaeth sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion yn fwriadus er mwyn meithrin eu lles a chefnogi eu dysgu. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau i olrhain a monitro lles a chynnydd disgyblion a chaiff y wybodaeth ei defnyddio'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Yn ogystal, mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am gynnydd a diddordebau pob disgybl i lunio proffiliau unigol. O ganlyniad, mae hyn yn sicrhau cefnogaeth berthnasol i'w lles a darpariaeth ddi-dor i'w dysgu. Darperir cefnogaeth effeithiol drwy raglenni penodol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n destun pryder. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ag asiantaethau allanol sy'n cynnwys y tîm iaith a lleferydd a'r seicolegydd addysg.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion fyfyrion ar werthoedd ac agweddau pwysig fel 'oes rhywbeth da am fod yn wahanol?'. Maent yn dysgu am wahanol grefyddau yn briodol, er enghraifft wrth ddysgu am Stori'r Creu mewn Cristnogaeth, Islam a Hindŵaeth. Trwy hyn, ynghyd â dysgu am ieithoedd a diwylliannau am wledydd gwahanol, mae disgyblion yn dysgu sut i barchu hawliau dynol a gwerthfawrogi ieithoedd a diwylliannau eraill ar draws y byd.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gwybodaeth berthnasol am addysg bersonol a chymdeithasol yn gelfydd fel rhan annatod o'r ddarpariaeth. Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am gydberthnasau a rhywioldeb fel rhan o'u dysgu. Mae hyn yn annog disgyblion i drafod agweddau pwysig sy'n cyfrannu'n gadarn at eu dealltwriaeth o werthoedd a thegwch yn y gymdeithas.

Mae disgyblion yn dwysáu eu gwerthfawrogiad o fod yn aelodau gwerthfawr o'r ysgol, y gymuned leol a chenedlaethol yn llwyddiannus trwy amrywiol weithgareddau. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu a thrafod nodweddion lleol, fel y golchdy ceir, afon Ystwyth a chofgolofn Pen Dinas. Caiff disgyblion gyfleoedd i fynd ar ymweliadau i gyfoethogi eu dealltwriaeth am wahanol themâu, fel wrth ddysgu am Oes Fictoria ym Mhlasty Llanerchaeron. Yn ogystal, mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfle i fynyachu ffair wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwyddonol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu profiadau a'u dyheadau at ddysgu ar gyfer y dyfodol.

Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb disgyblion i'r ysgol. Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant diogelu cryf ac mae systemau cadarn ar waith i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel ar y safle.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn ddoeth a chwbl ymroddedig. Mae'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau a'u doniau mewn amgylchedd dysgu gofalgarg a chynhaliol. Mae ei gweledigaeth yn cyfrannu'n gadarn at feithrin ethos cynhwysol ble mae disgyblion, staff a holl bartneriaid yr ysgol yn rhan greiddiol ohoni. Mae hyn yn cyfoethogi profiad y disgyblion wrth iddynt ddysgu a chwarae'n hapus gyda'u cyfoedion ynghyd â dwysáu eu balchder o fyw yn y gymuned leol a Chymru.

Mae disgwyliadau uchel y pennaeth a diwylliant o gydweithio cyson rhwng y nifer fechan o staff yn nodwedd gref. Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned sy'n barod i ddysgu a gwella'r ddarpariaeth yn barhaus. Er enghraifft, wrth rannu arferion addysgu a dysgu o fewn a thu hwnt i'r ysgol, mae staff yn rhyngweithio'n fwriadus â staff ysgolion eraill lleol i gynllunio themâu a gweithgareddau diddorol i ddisgyblion fel rhan o ddatblygu Cwricwlwm i Gymru. Caiff y cyfleoedd hyn i'r staff eu darparu'n briodol i wella'r ddarpariaeth, sydd yn ei dro yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd, er enghraifft yn eu medrau mathemateg. Yn ogystal, mae'r cydweithio hwn yn datblygu medrau addysgu staff yn effeithiol ac yn cefnogi'r trefniadau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cymell a chefnogi staff i gymryd rhan mewn arlwy briodol o gyfleoedd dysgu proffesiynol.

Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn dda. Maent yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau pwrpasol sy'n eu cefnogi i ddatblygu'r ysgol mewn diwylliant agored a chefnogol. Er enghraifft, fel rhan o'r broses monitro a gwerthuso, mae'r pennaeth yn casglu barn disgyblion a rhieni ar gyfer gwahanol agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at y broses hunanwerthuso lle caiff cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella eu hadnabod yn fwriadus ac amserol. Mae'r cynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn nodi camau gweithredu clir a nodau perthnasol i fireinio a datblygu agweddau sy'n canolbwyntio'n fwyaf penodol ar wella lles a chefnogi cynnydd disgyblion. Mae gan arweinwyr hanes llwyddiannus o weithredu newidiadau a chynnal gwelliannau cynaliadwy, er enghraifft wrth weithredu strwythur cyson i werthuso'r ysgol yn rheolaidd a thrylwyr.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn dda ac yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau addysg gynhwysol i ddisgyblion. Maent yn cael gwybodaeth werthfawr gan y pennaeth am waith yr ysgol, ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau monitro a gwerthuso perthnasol. Er enghraifft, yn dilyn sesiynau monitro, mae'r aelodau'n herio staff i fireinio'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau llafar a darllen Cymraeg. O ganlyniad, mae'r pennaeth yn ymateb yn rhagweithiol ac yn gweithredu'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion disgyblion a gweddill partneriaid yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli adnoddau, sy'n cynnwys rhai ariannol. Er enghraifft, gyda chyfraniadau hael gan y gymdeithas rhieni ac athrawon, mae staff yn buddsoddi mewn adnoddau i ddatblygu'r ardal allanol eang. Mae arweinwyr yn gwario'r gyllideb yn ddarbodus gyda'r corff llywodraethol yn ei monitro'n fanwl, gan gynnwys y defnydd o'r grant datblygu disgyblion. Mae'r aelodau'r corff yn

hybu diwylliant diogelu ac yn hyrwyddo darpariaeth iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae perthynas yr ysgol gyda'r rhieni yn gryfder, gan gynnwys gyda'r darpar rieni sy'n mynychu'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol. Mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn perfformio mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol fel y sioeau a'r cyngherddau blynyddol yn neuadd ac eglwys y pentref. Yn ogystal, maent yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau o fewn y sioeau lleol yn flynyddol. Mae hyn yn meithrin hyder, a datblygu doniau a medrau disgyblion, yn dda.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfennau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024